
ystadegau ar gyfer cymru / statistics for wales
# Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru: 2020

20 Mai 2020
SFR 44/2020

Diweddarwyd yr adroddiadau hyn i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Rhannwyd rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn rhanbarthau ar wahân ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru i ddarparu dadansoddiad manylach ar y materion a'r tueddiadau allweddol yn y meysydd hyn. Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o ranbarth y Gogledd a thynnu sylw at wahaniaethau a allai fodoli ledled y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




**Pwyntiau Allweddol**

- Mae poblogaeth y Gogledd wedi'i dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng ei hawdurdodau lleol nag yn y tri rhanbarth arall, yn amrywio o tua 155,600 o drigolion yn Sir y Fflint i tua 70,000 ar Ynys Môn.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd yn ffurfio cyfran uwch o'r boblogaeth nag mewn rhanbarthau eraill.
- Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019, y Gogledd oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf a'r gyfradd anweithgarwch economaidd isaf o blith pedwar rhanbarth Cymru.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bum allbwn ystadegol sy'n rhoi ystadegau ar gyfer Cymru a phob un o'r pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru), ar gyfer naw thema allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 9 |
| Cyflogaeth | 11 |
| Trafnidiaeth | 16 |
| Yr Amgylchedd | 19 |
| Ffyniant | 23 |
| Seilwaith Digidol | 26 |
| Tai | 30 |
| Diwylliant a threftadaeth | 32 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 33 |

Ystadegydd: Geraint Turner ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

# Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 2018





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2018, amcangyfrifwyd bod gan y Gogledd boblogaeth o 698,400 o bobl.

O'r pedwar rhanbarth, poblogaeth y Gogledd oedd wedi'i dosbarthu'n fwyaf cyfartal rhwng yr awdurdodau, ac roedd gan bedwar o'r chwe awdurdod, sef Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Chonwy fwy na 100,000 o drigolion yr un. O'r rhain, Sir y Fflint oedd yr un mwyaf poblog, gyda thua 155,600 o drigolion ac Ynys Môn, gyda 70,000 o drigolion, oedd yr un lleiaf poblog.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilometr sgwâr) yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan y Gogledd ddwysedd poblogaeth o 113.6 o bobl fesul cilometr sgwâr yn 2018.

Sir y Fflint oedd y mwyaf poblog o blith y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth, gyda 355.6 o bobl fesul cilometr sgwâr. Gwynedd oedd yr awdurdod lleiaf poblog gyda 49.0 o bobl fesul cilometr sgwâr. Rhwng 2008 a 2018, cynyddodd dwysedd y boblogaeth 2.3 y cant yn y Gogledd. Dyma'r trydydd uchaf o ran cynnydd yn nwysedd y boblogaeth o blith y pedwar rhanbarth yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Yr awdurdod lle y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth yn y rhanbarth oedd Gwynedd, sef 3.7 y cant. Ynys Môn oedd â'r gyfradd isaf, gyda dwysedd y boblogaeth yn cynyddu 0.1 y cant o 2008 i 2018.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod nifer a chyfran y trigolion sy'n byw mewn aneddiadau â 25,000 neu fwy o drigolion yn is yn y Gogledd nag yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin ond yn uwch nag yn y Canolbarth. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith nad oes gan y Gogledd yr un anheddiad â thros 100,000 o drigolion.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yn y Gogledd, yn ôl oedran a rhyw, 2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae gan y Gogledd boblogaeth sy'n heneiddio. Rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd wedi cynyddu o 18.3 y cant i 23.0 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 19.8 y cant i 17.8 y cant.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 1998-2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynyddodd y boblogaeth ym mhob un o'r chwe awdurdod yn y rhanbarth rhwng 1998 a 2018, gyda chyfradd twf poblogaeth ranbarthol o 6.3 y cant dros y cyfnod hwn.

Roedd cyfradd twf y boblogaeth yn is rhwng 2008 a 2018 nag ydoedd rhwng 1998 a 2008. Conwy oedd â'r gyfradd twf poblogaeth fwyaf yn y rhanbarth rhwng yn ystod y cyfnod 1998-2008, ac er mai Gwynedd oedd â'r gyfradd twf poblogaeth isaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod 1998-2008 , dyma'r awdurdod a gofnododd y gyfradd twf poblogaeth uchaf rhwng 2008 a 2018. Ynys Môn a gofnododd y cynnydd lleiaf yn y boblogaeth rhwng 2008 a 2018, gyda newid net o lai na 100 o drigolion dros y cyfnod hwn.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 5: Elfennau o newid yn y boblogaeth yn y Gogledd dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar ddata sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth ledled y Gogledd, gwelwn, ers y cyfnod 1991-1992, fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i fudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers y cyfnod 1991-92, mae mudo net a newidiadau eraill wedi bod yn gwbl gadarnhaol, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi bod yn symud i mewn i'r ardal nag sydd wedi bod yn symud allan (yn hytrach na genedigaethau a marwolaethau). Yn y cyfamser, mae newid naturiol (sef y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y marwolaethau) wedi amrywio rhwng newid net cadarnhaol a negyddol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r newid hwn wedi bod yn un negyddol a lleihaol, sy'n golygu bod mwy o farwolaethau wedi bod yn y rhanbarth na genedigaethau.

Gan edrych ar awdurdodau lleol, gwelwn mai yng Nghonwy y cafwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd mudo a newidiadau eraill yn ystod y cyfnod 2017-18. Gwelwn hefyd fod y newid yn y boblogaeth oherwydd mudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod, hwn. Cafwyd newid naturiol negyddol mewn pedwar o'r chwe awdurdod yn 2017 a 2018, a dim ond yn Sir y Fflint a Wrecsam y cafwyd mwy o enedigaethau na marwolaethau yn ystod y cyfnod. Yng Nghonwy y cafwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 6: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad, roedd 204,406 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn y rhanbarth yn 2011. Er efallai bod tebygrwydd rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd, mae hefyd yn bwysig ystyried canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal gan y gall hyn amrywio'n sylweddol yn sgil gwahaniaethau ym maint y boblogaeth.

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn defnyddio’r Gymraeg (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon aelwydydd yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd sy'n trafod data ar y Gymraeg.

Dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mai yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, Gwynedd oedd yr awdurdod â'r gyfran uchaf o siarad Cymraeg yn y Gogledd ac yng Nghymru yn gyffredinol, gyda 75.6 y cant o'r trigolion tair oed a throsodd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Sir y Fflint oedd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd, sef tua 22.5 y cant. Ar lefel ranbarthol, y Gogledd oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda thua 41.9 y cant yn y flwyddyn a ddaeth ben ym mis Medi 2019, sef cynnydd o tua 2.4 pwynt canran o gymharu â'r data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2009. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi, ar lefel awdurdod lleol, fod Sir y Fflint yn un o ddim ond dau awdurdod yng Nghymru lle mae cyfraddau siarad Cymraeg wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 7: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y Gogledd, 2018-19**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch


Yn 2018-19, cafwyd bron 17,500 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU) yn y Gogledd, sy'n cyfateb i tua 13.2 y cant o gofrestriadau myfyrwyr ledled Cymru. Prifysgol Bangor a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU yn y rhanbarth, sy'n cyfateb i 58.3 y cant o gyfanswm y cofrestriadau yn y rhanbarth.

## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Yn ôl data SYG ar gyfer 2016-18 yn y Gogledd, roedd disgwyliad oes menywod, disgwyliad oes iach menywod a disgwyliad oes iach dynion ar eu huchaf yng Ngwynedd ac ar eu hisaf yn Wrecsam. Roedd disgwyliad oes dynion ar ei uchaf yn Sir y Fflint ac ar ei isaf yn Sir Ddinbych.

**Ffigur 8: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**





* Cyfunwyd y cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion yn ymwneud ag ansawdd data.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y 5 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw yw: peidio ag ysmygu, yfed 14 uned o alcohol neu lai ar gyfartaledd bob wythnos ar gyfartaleddd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau y diwrnod blaenorol, mynegai màs y corff iach, a bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol.

Ar draws y Gogledd yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, nododd 10 y cant o oedolion bod ganddynt lai na 2 o'r 5 ffordd iacho fyw. Roedd hyn yn amrywio o 7 y cant yn Ynys Môn i 12 y cant yn Sir y Fflint, ond nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 9: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ar draws y Gogledd, yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, dywedodd 75 y cant o oedolion eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd hyn yn amrywio o 70 y cant yn Sir Ddinbych i 78 y cant yng Ngwynedd.


## Cyflogaeth



| Y gyfradd cyflogaeth (y pobl 16-64 oed) | Y gyfradd diweithdra (pobl 16 oed a throsodd) | Y gyfradd anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr) (pobl 16-64 oed) |
|---|---|---|
| 75.9% | 3.9% | 17.9% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r data yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019.

**Ffigur 10: Y gyfradd cyflogaeth yn y Gogledd, 1999-2019**




Nodiadau:

Mae data 1999 i 2003 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data 2004 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2004. Mae’r data o 2005 ymlaen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi. Nid ystyriwyd bod data 1999 na 2000 ar gyfer y lefel ddaearyddiaeth hon yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O blith y pedwar rhanbarth, y Gogledd oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019. Sir y Fflint oedd yr awdurdod lleol â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yng Nghymru, gyda chyfradd o 79.7 y cant (yn uwch na Chymru a'r DU).


Ers 2001, mae cyfradd cyflogaeth y rhanbarth hwn wedi cynyddu 6.2 pwynt canran, ychydig yn is na chynnydd Cymru, sef 6.4 y cant. Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol yn y Gogledd a gofnododd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd cyflogaeth, sef 11.6 pwynt canran dros yr un cyfnod.

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddi-waith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, y gyfradd diweithdra yn y Gogledd oedd 3.9 y cant, sy'n is na chyfradd diweithdra Cymru a'r un fath â chyfradd y DU (i un pwynt degol). Ers 2001, mae'r gyfradd diweithdra yn y Gogledd wedi gostwng 0.6 pwynt canran. Sir y Fflint oedd â'r gyfradd diweithdra isaf yng Nghymru ac roedd y newid amlycaf yn y Gogledd, gan ostwng 2.8 pwynt canran ers 2001.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn y Gogledd oedd 17.9 y cant, sef gostyngiad o 6.7 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid hwn yr un fath â'r newid a welwyd ledled Cymru (i un pwynt degol). Cyfradd anweithgarwch economaidd Ynys Môn a welodd y newid mwyaf sylweddol yn y Gogledd, gan ostwng 10.7 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym Mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 11: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2018**





Ffynhonnell: Cyflogaeth yn y Gweithle, Llywodraeth Cymru

Cesglir data ar gyflogaeth yn y gweithle gan fusnesau drwy Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Busnesau (BRES), ac mae'n canolbwyntio ar ddata cyflogaeth a chyflogeion. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â Data'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a gymerir o ddata a gesglir yn bennaf oddi wrth drigolion cartrefi preifat.

Mae [data cyflogaeth y gweithle] data cyflogaeth yn dangos bod 318,400 o swyddi yn y rhanbarth yn 2018. Y lefel gyfartalog o swyddi ar draws chwe awdurdod lleol y rhanbarth oedd 53,100. Hon oedd yr ail lefel isaf yng Nghymru, yn ogystal â lefel canolrif y rhanbarth, sef 51,800.

Yn y sector gweithgareddau eiddo tiriog y cafwyd y twf canrannol mwyaf mewn swyddi dros gyfnod 2008-2018, tra bod y newid mwyaf yn lefel y swyddi yn y gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; y sector gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cymorth, a welodd dwf o 12,300 o bobl. Y sector gweithgareddau cyllid ac yswiriant welodd y gostyngiad mwyaf o ran canran. Wrth ystyried nifer y swyddi, fodd bynnag, y sector cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd a ostyngodd fwyaf dros y cyfnod hwn yn y rhanbarth, i lawr 9,900 o swyddi ledled y Gogledd. Noder bod gwahaniaethau wedi'u cyfrifo ar sail ata wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 12: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yn y Gogledd o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -20,400 sef y newid net mwyaf o blith y pedwar rhanbarth. Dengys hyn fod nifer y bobl yn y rhanbarth yn amrywio wrth i bobl fynd y tu allan i'r rhanbarth i weithio, yn arbennig ar draws y ffin i ardaloedd fel Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Swydd Amwythig. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2018 bod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr yn negyddol mewn tri o chwe awdurdod lleol y rhanbarth, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Sir y Fflint, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth, a welodd yr all-lif mwyaf o weithwyr.

**Ffigur 13: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Dengys data Cyfrifiad 2011, ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn cymudo ymhellach i'r gwaith na chyfartaledd Cymru, ac eithrio yn Wrecsam. Mae pellteroedd cymudo wedi cynyddu ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth ers 2001.

Fel yng ngweddill y wlad, mae data 2019 yn dangos bod gan y mwyafrif helaeth o fentrau lai na 10 o weithwyr. Y gyfran o ficro fentrau yn y Gogledd oedd yr ail uchaf o'r pedwar rhanbarth. Gan y Gogledd hefyd yr oedd y gyd-gyfran uchaf o fentrau mawr.

Dengys data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2018, mewn un awdurdod lleol yn y rhanbarth (sef Sir y Fflint) fod cyfran y dynion a'r merched 18-64 oed heb gymwysterau yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 8.4 y cant. Yng Nghonwy a Sir y Fflint, roedd canran y dynion a'r merched 18-64 oed â chymwysterau hyd at NQ lefel 2 yn is na lefel Cymru, sef 78.9 y cant.

## Trafnidiaeth

### Ffigur 14: Seilwaith Trafnidiaeth yn y Gogledd





Ffynhonnell: Arolwg Ordnans

Mae seilwaith trafnidiaeth y Gogledd yn cynnwys porthladd a phorthladd fferi yng Nghaergybi ar Ynys Môn, yn ogystal ag 1 o'r ddau faes awyr yng Nghymru.

Gan Gaergybi oedd y drydedd lefel uchaf o draffig cludo nwyddau yn 2018 (5.2 miliwn o dunelli) a hi yw'r prif porthladd ar gyfer cludo nwyddau a chludo teithwyr ar y môr gyda Gweriniaeth Iwerddon.

Mae'r A55 yn rhedeg am tua 87 milltir o borthladd Caergybi, drwy awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint cyn croesi'r ffin i Loegr a gorffen yng Nghaer. Mae dwy ran o’r A55 lle'r oedd cyflymder cyfartalog yn aml yn llai na 30 mya rhwng Ebrill a Mehefin 2016. Mae’r darnau hyn yng Nghaergybi a ger croesfan Pont Britannia.

**Ffigur 15: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddir gan drigolion cyflogedig y Gogledd rhwng 16 a 74 oed, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad o 2011, roedd 75.7 y cant o weithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yn y Gogledd yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 237,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 11.9 y cant (37,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 5.1 y cant (16,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Ar draws y Gogledd, oedolion 16 oed a throsodd yn Ynys Môn oedd fwyaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel ffordd o deithio, ar 71.8 y cant yn 2018-19. Yng Ngwynedd yr oedd y gyfran isaf yn y rhanbarth (51.9 y cant).

Yn yr un cyfnod, roedd yr awdurdod lleol a oedd â'r ganran uchaf o oedolion 16 oed a throsodd yn defnyddio beic fel modd o deithio o leiaf unwaith y mis hefyd yn Ynys Môn (13.3 y cant). Roedd y defnydd beic rheolaidd isaf yn Wrecsam (6.9 y cant).

**Ffigur 16: Teithiau trên a wnaed yn y Gogledd dros amser, yn ôl awdurdod lleol**





Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Ledled y Gogledd, gwnaed bron 1.4 miliwn o deithiau trên yn 2017-18, sef cynnydd o 20,525 o gymharu â 2007-08. Yn 2017-18, digwyddodd y gyfran fwyaf o'r teithiau hyn (38.4 y cant) yng Ngwynedd. Fodd bynnag, Conwy oedd yr awdurdod lleol lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y teithiau trên, mewn termau canrannol, dros y cyfnod o ddeng mlynedd, sef 22.5 y cant.

Yn 2017-18, roedd 41 o orsafoedd rheilffordd yn y Gogledd. Roedd tair o’r rhain, sef Bangor a’r Rhyl, ymhlith yr 20 o orsafoedd prysuraf yng Nghymru o ran nifer y mynediadau a'r ymadawiadau.

# Yr Amgylchedd


## Ffigur 17: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y Gogledd




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn y Gogledd, mae Pen y Gogarth, Arfordir Gogledd Ynys Môn, Mynydd y Tŵr, Traeth Mawr ac Arfordir Llŷn wedi'u dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif. Yn y rhanbarth hwn hefyd ceir Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Migneint-Arenig-Dduallt; Craig yr Aderyn; Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Arfordir Ynys Gybi; Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal; Morwenoliaid Ynys Môn; Traeth Lafan, Bae Conwy; ac Ynys Seiriol, yn ogystal â rhannau o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Berwyn, Aber Afon Dyfrdwy, Bae Lerpwl a Gogledd Bae Ceredigion. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

**Ffigur 18: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y Gogledd**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae y Gogledd yn gartref i Barc Cenedlaethol Eryri, yn ogystal â thair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE): Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Ynys Môn; a Llŷn.


### Ansawdd Aer

Sir y Fflint oedd â'r crynodiad mwyaf o nitrogen deuocsid yn yr aer yn y rhanbarth yn 2017 (sef 9 µg/m$^3$), a'r crynodiad lleiaf a nodwyd oedd 5 µg/m$^3$ ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ers 2007, gyda'r lleihad mwyaf yn cael ei nodi yn Wrecsam (5µg/m$^3$).

### Ynni

Yn y Gogledd ym 2018 roedd capasiti ynni carbon isel o 709 megawat (MW). Roedd hyn yn 18 y cant o gyfanswm Cymru. Ynys Môn, Conwy a Wrecsam oedd yr awdurdodau lleol â'r capasiti ynni carbon isel isaf yn y rhanbarth (85 MW). Sir y Fflint oedd â'r capasiti uchaf ar gyfer ynni carbon isel yn y rhanbarth, gyda dros 30 y cant o gapasiti'r rhanbarth. Roedd 85 y cant o'r 17,800 o brosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).

**Ffigur 19: Trin gwastraff trefol yn y Gogledd**





Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2018-19, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 66 y cant yn y Gogledd, o gymharu â 54 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.

Roedd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio a gofnodwyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yn 2018-19, o 62 y cant yng Ngwynedd i 70 y cant ar Ynys Môn. Hon hefyd oedd y ganran uchaf a gofnodwyd yng Nghymru.

Lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi oedd 7 y cant yn 2018-19, o gymharu â 44 y cant yn 2012-13.

**Ffigur 20: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd y gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi y pen a gynhyrchwyd ledled y Gogledd yn 2018-19 yn amrywio o 157kg yng Nghonwy i 248kg yn Wrecsam.  Yng Nghonwy y gwelwyd y newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol cartrefi a gynhyrchwyd fesul person ers 2012-13, sef gostyngiad o 29 y cant, neu 63kg y pen. Yn y cyfamser, roedd trigolion Wrecsam yn cynhyrchu 29kg yn fwy o wastraff cartref ar gyfartaledd yn 2018-19 nag yn 2012-13.

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog y Swyddfa Ystadegau Gwladol . Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.


Yn y Gogledd roedd GYC y pen yn £20,389 yn 2018 (mae'r data'n cynnwys yr ymagwedd gytbwys ar gyfer GYC). Yr oedd gan Wynedd, Sir y Fflint a Wrecsam i gyd GYC y pen a oedd yn uwch na gwerth Cymru. Yn y cyfamser, Ynys Môn oedd â'r lefel isaf o GYC y pen yn y rhanbarth (£15,008), gan roi ystod o £8,183 rhwng y lefelau uchaf ac isaf ar draws y Gogledd. Ar draws y rhanbarth, tyfodd GYC y pen 3.8 y cant o'i fl wyddyn fl aenorol, a 74.7 y cant ers 1999. Yng Nghonwy y gwelwyd y newid canrannol mwyaf mewn GYC y pen ledled Cymru ers 1999, i fyny 97.4 y cant, a hefyd y cynnydd mwyaf yn y Gogledd ers 2017, i fyny 6.6 y cant yn y drefn honno.

Yn y Gogledd, roedd Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen yn £16,447 yn 2017, yr ail uchaf o'r pedwar rhanbarth. Ar draws y rhanbarth, tyfodd GDHI y pen 0.9 y cant o'r flwyddyn flaenorol, a 61.1 y cant ers 1999.

Yn y Gogledd, roedd enillion wythnosol gros canolrifol enillion wythnosol gros canolrifol cyflogeion amser-llawn yn 2019 yn £530.00. Tyfodd yr enillion ym mhob awdurdod lleol ar draws y rhanbarth o'i gymharu â 2018 ac eithrio yng Ngwynedd, lle gostyngodd yr enillion 1.0 y cant, neu £4.70. Yn Ynys Môn y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn enillion canolrifol ledled Cymru, cynnydd o 19.0 y cant. Gwynedd oedd â'r enillion canolrifol lleiaf o'r awdurdodau lleol yn y Gogledd yn 2019. Roedd yr enillion canolrifol uchaf yn parhau i fod yn Sir y Fflint (£573.40), lle'r oedd enillion wythnosol canolrifol dros £25 yn uwch nag yn y rhanbarth cyflog uchaf nesaf.

Mae data SYG yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (£9.00 yn 2019, fel y diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw). Yn 2019, dengys y canlyniadau, o'r holl swyddi gweithwyr ledled y rhanbarth, bod ystod o 10.2 pwynt canrannol rhwng awdurdodau lleol. Y ganran uchaf oedd 31.4 y cant yng Ngwynedd, a'r isaf oedd 21.2 y cant yn Sir y Fflint. Sylwer bod yr amcangyfrifon hyn gan awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, gan adlewyrchu maint y samplau yn bennaf.

**Ffigur 21: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y Gogledd, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yn y Gogledd roedd 16.6 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2018/19, sef cynnydd o 1.8 pwynt canran ers 2008/08. Yn Sir Ddinbych y cofnodwyd y gyfradd uchaf (sef 19.3 y cant), ac yng Ngwynedd y cofnodwyd yr un isaf (sef 12.0 y cant).

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y Gogledd yn cynnwys 423 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae hyn yn 22 y cant o'r holl LSOA yng Nghymru.

O ystyried y 191 LSOA mwyaf difreintiedig ledled Cymru i gyd yn 2019 - h.y. y 10 y cant sydd fwyaf difreintiedig, mae 23 ohonynt yng Ngogledd Cymru. Dyma 5 y cant o'r holl LSOAs yn y rhanbarth, a 12 y cant o'r 10 y cant o'r LSOAs mwyaf difreintiedig ledled Cymru i gyd.


Cafodd MALIC ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Tachwedd 2019, ac mae'r offeryn rhyngweithiol yn darparu dadansoddiadau ystadegol pellach yn ôl Dinas Ranbarth / Ardal Bargen Ddinesig yng Nghymru.

## Busnesau

Yn y Gogledd, roedd 93.5 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2013 yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 44.3 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

## Seilwaith Digidol

**Ffigur 22: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Yn y Gogledd ym mis Medi 2019, roedd cysylltiad band eang sefydlog cyflym iawn (30Mbit/e neu'n uwch) neu gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300 Mbit/e neu'n uwch) ar gael i 91 y cant o'r boblogaeth, yn amrywio o 87 y cant yng Ngwynedd i 93 y cant yng Nghonwy, Sir y Fflint a Wrecsam.

Gallai 14 y cant o'r cartrefi a'r busnesau fanteisio ar gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300Mbit/e neu'n uwch) – roedd hyn 38 pwynt canran yn is na chanran y DU, sef 52 y cant. Roedd canran y cartrefi a'r busnesau oedd yn gallu cael gwasanaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn amrywio o 4 y cant yng Nghonwy i 27 y cant yn Wrecsam.

Roedd gwasanaethau ffeibr llawn ar gael i 13 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth ym mis Medi 2019. Roedd hyn yn uwch na lefel y DU. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.


**Ffigur 23: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd bron 3,800 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 1.1 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2019, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd y gyfran hon yn uwch na chyfartaledd y DU (0.5 y cant) ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (1.0 y cant).

**Ffigur 24: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 26 y cant ar Ynys Môn i 73 y cant yn Wrecsam. Cyfartaledd y DU oedd 80 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 72 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 20 y cant o arwynebedd Gwynedd yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth neu'n wir yng Nghymru. Fodd bynnag yn Sir y Fflint, roedd yr ardal ddaearyddol nad oedd yn cael ei gwasanaethu gan unrhyw weithredwr yn llai nag 1 y cant.

**Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yn y Gogledd, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yn y Gogledd a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 68 y cant ar Ynys Môn i 89 y cant yng Nghonwy.

Mewn tri awdurdod lleol yn y rhanbarth (sef Ynys Môn, Sir Ddinbych a Sir y Fflint), roedd canran ardal ddaearyddol Cymru nad oedd yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr yn llai nag 1 y cant, er mai 10 y cant oedd y gyfran yng Ngwynedd, sef yr un uchaf yng Nghymru.

## Tai


**Ffigur 26: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn y Gogledd dros amser (pob deiliadaeth)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru


Mae cyfanswm yr anheddau yn y Gogledd wedi parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 327,700 o anheddau ar 31 Mawrth 2019. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 4 y cant dros y 10 mlynedd flaenorol. Roedd anheddau wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng yr awdurdodau lleol nag mewn rhanbarthau eraill, yn amrywio o 34,900 o anheddau ar Ynys Môn i 68,600 yn Sir y Fflint. Roedd 13 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat, sef yr un ganran â phum mlynedd ynghynt. Roedd 72 y cant o'r anheddau yn eiddo i berchen-feddianwyr; sef 1 pwynt canran yn uwch na 5 mlynedd ynghynt.

**Ffigur 27: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yn y Gogledd dros amser**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 28: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn y Gogledd dros amser, yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) yn dod o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ar gyfer datblygwr preifat, a allai arwain at dangyfrif tai newydd a adeiledir ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrrestredig a gorgyfrif y rhai ar gyfer y sector preifat.

Cwblhawyd 1,284 o anheddau newydd ledled y Gogledd yn ystod y cyfnod 2018-19. Mae hyn 15 y cant yn llai na deng mlynedd yn gynharach ac 8 y cant yn llai nag 20 mlynedd yn gynharach. Roedd y nifer uchaf o anheddau newydd a gwblhawyd dros y cyfnod 2018-19 yn Sir y Fflint (458, neu 36 y cant) tra bod y rhai isaf ar Ynys Môn (67, neu 5 y cant).


Mae data o Mynegai Prisiau Tai y DU yn dangos, ym mis Medi 2019, bod prisiau tai cyfartalog yn y Gogledd yn amrywio o £158,000 yn Sir Ddinbych i £181,100 ar Ynys Môn. Cynyddodd prisiau tai cyfartalog £30,000 neu fwy rhwng Medi 2009 a Medi 2019 yn Ynys Môn, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych. Cynyddodd prisiau tai cyfartalog £27,000 (20 y cant) yn Wrecsam a £25,500 (19 y cant) yng Ngwynedd dros yr un cyfnod.

Data yn gywir o fis Ionawr 2020 cyhoeddi Mynegai Prisiau Tai y DU (UK HPI). Mae UK HPI yn fynegai wedi'i addasu'n gymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli i adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir UK HPI yn fisol. Mae'r holl ffigurau yn UK HPI yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod 93 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled y Gogledd yn y pythefnos rhwng 14 a 27 Hydref 2019. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bach o 13 y cant (14 unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018, gyda'r nifer yn cynyddu mewn tri awdurdod lleol ac yn gostwng yn y tri arall. Roedd tua thraean o'r bobl a oedd yn cysgu ar y stryd ledled y rhanbarth wedi'u lleoli yn Wrecsam.

# Diwylliant a Threftadaeth

## Ffigur 29: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yn y Gogledd




Ffynhonnell: Cadw

Yn ogystal â'i hadeiladau rhestredig, mae dau safle Treftadaeth y Byd UNESCO wedi'u lleoli yn y Gogledd. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar safle sy'n ffurfio Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech), yn ogystal â dyfrbont a chamlas Pontcysyllte.

Cafodd Gogledd Cymru 23 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid yn 2018, a arweiniodd at gyfanswm gwariant o £823 miliwn. Roedd cyrchfannau ar gyfer ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Ngogledd Cymru yn fwyaf tebygol o fod wedi'u lleoli ar bentrefi neu gefn gwlad, gyda'r ymweliadau hyn yn cyfrif am 32 y cant o'r ymweliadau dydd â'r rhanbarth gan dwristiaid. Roedd 25 y cant o ymweliadau â glan y môr neu'r arfordir yng Ngogledd Cymru, cyfradd uwch na'r rhanbarthau eraill yng Nghymru.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru, yn 2018, fod gan Ogledd Cymru gyfradd flynyddol o 62 y cant ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai, gostyngiad o'r 67 y cant y flwyddyn flaenorol a'r lefel isaf dros 4 blynedd.

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau at atyniadau twristiaeth yng Nghymru yn 2018, roedd 7 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yng Nghymru yng Ngogledd Cymru, sef: Gardd Bodnant, Castell Caernarfon, Castell Conwy, Nova Prestatyn, Tramffordd Pen y Gogarth, Zip World Fforest a Zip World Slate Caverns. Dros yr un cyfnod, roedd 5 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yng Nghymru yng Ngogledd Cymru, sef: Coedwig Gwydir, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch, Dyfrbont Pontcysyllte, Yr Wyddfa (cerddwyr) a Pharc Hwyl, cae Rasio a Marchnad Tir Prince.

Nodyn: Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. ar lefel Cymru, ar lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn dolenni at ddatganiadau unigol.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi yn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd y cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a chan ycyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru.

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

Er nad ydym yn bwriadu diweddaru'r adroddiadau hyn yn rheolaidd, maent wedi'u diweddaru nawr i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae'n bosibl fod data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru, sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 7 ohonynt, sef canran yr oedolion sydd â llai na dau ddangosydd ffordd iach o fyw; lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer; canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol; Incwm

Gwario Gros Aelwydydd y pen; capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy a osodwyd; canran y bobl mewn gwaith; a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Y diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at Desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.